PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 11 | Mawrth 14, 2024 | 50c.

# Dathlu Gŵyl Ddewi

## Capel Peniel

Cafwyd oedfa Gŵyl Dewi i'w chofio dan arweiniad yr Ysgol Sul ar fore 3 Mawrth, a'r capel yn orlawn! Diolch i'r athrawon, plant a'u rhieni am y cyfan oll.

Yn dilyn yr oedfa, cynhaliodd Cymdeithas Peniel a Bwlch-y-corn eu Cinio Gŵyl Dewi ym mwyty Blakeman, New Cross Inn, Dryslwyn. Cafwyd gwledd o fwyd ac adloniant gwych gan Fflur Dafydd ac Iwan Evans, a chyfle i hel atgofion rhwng yr aelodau a Fflur am ei thad-cu a'i mam-gu, y Parchg a Mrs T. Elfyn Jones.



## Saron, Creunant



Ar 3 Mawrth cawsom amser gwych yn Saron yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, fel yr ydym yn ei wneud bob blwyddyn trwy wasanaeth cymunedol. Mae'r gwasanaeth hwn yn golygu bod pobl yn cael cymryd rhan gydag amrywiaeth o eitemau yn y ddwy iaith, gan gynnwys barddoniaeth, cân a rhigymau, neu hyd yn oed unawd! Credwn fod hyn yn bwysig gan ei fod yn ffordd ddeniadol ac ysgafn i ymwelwyr i glywed am neges Iesu Grist, ac wrth gwrs ein nawddsant, Dewi. Y gobaith yw y bydd mwy yn cael eu hychwanegu at ein niferoedd oherwydd ein hymdrechion fel hyn. Roedden ni gyd wedi mwynhau te, teisen a phice wedi'r oedfa yn y festri. 'Dyn da oedd Dewi.'



# CEFNOGI CEFN GWLAD

Rhai blynyddoedd yn ôl fe wnaeth Undeb yr Annibynwyr gychwyn ymgyrch i gefnogi cymunedau cefn gwlad yn sgil ansicrwydd mawr Brexit. Cynhyrchwyd poster i'w ddosbarthu i bob capel gyda rhif ffôn y RABI – elusen sy'n cynnig cymorth a chyngor i'r rhai sy'n teimlo'n bryderus neu'n ddigalon.

### Bygythiad i gefn gwlad

Yn dilyn Brexit, mae'r cymhorthdal fu'n hanfodol i amaeth yn dod i ben, a chynigir grant newydd gan Lywodraeth Cymru, sydd yn gyfrifol am Faterion Gwledig. Un o amodau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yw bod ffermwyr yn neilltuo 10% o'u tir ar gyfer tyfu coed a 10% i greu cynefinoedd, er mwyn lleddfu newid hinsawdd.

Arweiniodd hyn at gyfarfodydd a phrotestio mawr gan filoedd o ffermwyr, sy'n honni y byddai colli cymaint o dir sy'n cynhyrchu bwyd yn ergyd enbyd i'r diwydiant, yn arwain ar golli miloedd o swyddi, ac yn bygwth dyfodol yr iaith Gymraeg mewn cymunedau gwledig.




### Galw am oedi

Mae aelodau blaenllaw Cyngor Sir Gâr wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Lesley Griffiths, yn galw am oedi cyflwyno'r cynllun.

Mae'r Cynghorydd Ann Davies yn Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, yn Gadeirydd Undeb Amaethwyr yr FUW yn Sir Gâr, yn ffermio yn Llanarthne yn Nyffryn Tywi ac yn flaenor yng nghapel Cefnberach. 'Rydym yn credu'n gryf na

*parhad ar dudalen 2*

# CEFNOGI CEFN GWLAD – parhad

ddylai fod gwrthdaro rhwng cynaliadwyedd amaethyddol ac amgylcheddol,' meddai. 'Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cyd-deithio gydag amaeth a busnesau cysylltiedig er mwyn sicrhau diwydiant cynhyrchiol a phroffidiol sy'n ffafrio'r amgylchedd yn y cynllun terfynol.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Hefin Jones, sy'n gadeirydd undeb y NFU yn Sir Gâr: 'Mae angen ailosod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau gwledig ar fyrder er mwyn sicrhau y gall Cymru gynhyrchu'r bwyd sydd ei angen arnom ni, yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur sy'n ein hwynebu.'

# ROGW

## *Cofio canmlwyddiant geni'r Parchg Robin Williams (1923–2003)*

Robert Owen Griffith Williams, i roi ei enw'n llawn. Robin i lawer a ROGW i sawl un arall. Gweinidog, pregethwr, llenor, darlledwr, canwr a dynwaredwr ... i restru rhai o'i ddoniau.

Symudodd y teulu o Benycaerau ym Mhen Llŷn i Lanystumdwy yn Eifionydd ym mlynyddoedd cynnar Robin gan i'w dad, Jeremiah Williams (Jeri) gael gwaith ar stad y Gwynfryn yn Llanystumdwy. Ac â Llanystumdwy wedyn y cysylltir enwau'r rhieni – Jeri ac Ann, a'r plant Jac, Wil, Robin, Madge a Lora. A theulu hynod o dalentog oedan nhw i gyd, a phwy na chlywodd am glasuron Jac (J. G. Williams), *Pigau'r Sêr* a *Maes Mihangel*?

### Weiarles

Yn ystod ei gyfnod ym mhrifysgol Bangor daeth Robin yn 'enw', ac i Sam Jones, Pennaeth y BBC y mae'r diolch am hynny. Roedd angen chwilio am 'eitem' i ddiddanu'r genedl wedi cyfnod yr Ail Ryfel Byd ar gyfer y *Noson Lawen* a ddarlledwyd yn gyson o Neuadd y Penrhyn ym Mangor ar y 'weiarles'. A daeth tri o fyfyrwyr i'r adwy gan alw'u hunain yn Driawd y Coleg. Y tri gwreiddiol, gyda llaw, oedd

*parhad ar dudalen 7*



# Mr Vincent Lloyd Hughes, Hendre Creuddyn (1937–2024)



Yn ystod y gwasanaeth angladdol talodd y Parchedig Gareth Edwards deyrnged i Mr Vincent Lloyd Hughes, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Ionawr 2024. Dywedodd fod pedwar lle y mae'n eu cysylltu gyda Vince:

1. **Blaenau Ffestiniog**, lle cychwynnodd y daith, lle roedd cadernid y mynyddoedd yn ddrych o'r cadernid yn y cymeriadau, a lle bu atgofion bore oes yn gysur mawr i Vince, yn enwedig yn y blynyddoedd olaf.
2. **Yr ysgolion**, ysgol sir Ffestiniog, a'r Coleg Normal i baratoi i fynd yn athro. Roedd ei swydd gyntaf yn Llanrwst, wedyn Pen Cae, Penmaenmawr ac athro bro yn ardal Dyffryn Conwy cyn dod yn bennaeth yn Ysgol Henryd, swydd y bu ynddi am ddeunaw mlynedd hyd ei ymddeoliad ym 1991.
3. **Hendre Wen**. Priododd ag Anwen yn 1964 a symudodd i Hendre, Creuddyn yn 1973. Gofalodd am y maes carafanau a chafodd gyfle i ddilyn ei ddiddordebau, fel garddio a chasglu hen greiriau.
4. **Capel Coffa**. Roedd ei eglwys yn golygu llawer iddo. Y Tabernacl, Stiniog oedd eglwys ei blentyndod.

### Teyrngarwch

Priododd ag Anwen yn Capel Coffa, Cyffordd Llandudno, yn 1964 a daeth yn aelod yno. Yno hefyd y bedyddiwyd Elen a Glain. Daeth yn un o'r organyddion yn 1967 ac yr oedd wrth ei fodd yn canu'r organ, a'r ddawn ganddo i greu awyrgylch pwrpasol. Dilynai sol ffa ac roedd ganddo lais tenor swynol. Fe'i penodwyd yn ysgrifennydd cyffredinol Capel Coffa ac yn ysgrifennydd yr ymddiriedolwyr a bu am agos i hanner canrif yn y swydd. Roedd yn meddwl y byd o Gapel Coffa a'r aelodau.

### Cymeriad cynnes

Roedd yn berson cymdeithasol iawn ac roedd ganddo'r ddawn o dynnu pobl ato a'u gwneud yn gartrefol. Cofiwn gyda diolch am Vince, y person cymdeithasol iawn, byddai croeso ar drothwy'r Nadolig i'r sgubor yn Hendre Wen i ganu carolau. Y person cefnogol iawn i'r gwerthoedd gorau, y person gofalgar iawn, ac un oedd yn gefn i'w deulu, yn enwedig ei wraig Anwen, i'w ferched Elen a Glain a'u teuluoedd, i Gapel Coffa am 60 mlynedd, ac i'r pum gweinidog fu yno yn eu tro: Parchg G. J. Miles, Parchg Gwyn Jones, Parchg John Watkin, Parchg Blodwen Jones, a'r Parchg Gareth Edwards.

Bydd colled fawr ar ei ôl. Collir ei wên, y croeso, ffraethineb, hwyl, urddas, cadernid a'i anogaeth. Roedd Vince wedi cyffwrdd â bywydau cymaint.

### Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad ag Anwen Lloyd Hughes a'i merched Elen a Glain a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Mae ein meddyliau gyda'r teulu oll yn eu colled a'u galar.

**Julie Jones**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 14 2024 RHIF 159

# ‘Rwy’n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad’

## Dydd Gweddi’r Byd 2024

### Mudiad Ecwmenaidd Byd-eang a arweinir gan ferched

Yn ogystal â bod yn ddydd gŵyl ein nawddsant Dewi, roedd 1 Mawrth eleni hefyd yn Ddydd Gweddi’r Byd.

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan grŵp eciwmenaidd o ferched Cristnogol o Balesteina, y wlad lle ganed Iesu, lle bu’n gweinidogaethu a lle bu farw. Yno y dechreuodd y ffydd ac yno mae ei gwreiddiau.

#### Ton o weddi

Ymunodd Cristnogion ar draws y byd i gyd yn y don enfawr o weddi mewn ieithoedd brodorol, gan ddechrau wrth i’r haul godi dros Samoa a pharhau wrth iddo gwmpasu’r ddaear, a gorffen dros y Môr Tawel wrth i’r haul fachlud dros Samoa Americanaidd.

A rhywle rhwng y pegynau daearyddol hynny ac yn rhan o’r 24 awr weddi yr oedd grwpiau o Gristnogion o Gymru yn cynnal cyrddau gweddi yn eu broydd eu hunain. Golyga hynny fod Cymru ymhlith y 146 a mwy o wledydd ac ynysoedd sy’n ymuno mewn gweddi ar y diwrnod hwn bob blwyddyn. Daethant ynghyd eleni i weddïo dros bobl Palesteina a chyda nhw.

#### Y gwasanaeth

Yn y gwasanaeth eleni, rhannwyd storïau oedd yn darlunio profiad tair gwraig Gristnogol o Balesteina, pob un o genhedlaeth wahanol, a oedd yn tystio i rym goddef ein gilydd mewn cariad.

Wrth inni wrando ar eu storïau, cawsom ein hannog i oddef ein gilydd mewn cariad er gwaethaf anawsterau a gwahaniaethau ac uno mewn gweddi am atebion cyfiawn a chytûn a fyddai’n dod â diwedd ar ddioddefaint pobl. Boed inni ymrwymo i deithio gyda’n gilydd i sicrhau diogelwch a heddwch i holl bobl y byd.

Diolch i wragedd Cristnogol Palesteina am y gwasanaeth arbennig hwn, a gweddïwn y bydd eu storïau’n annog ac yn ysgogi merched ledled y byd.

*Parchg Beti-Wyn James*
*Parchg Carys Ann*
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

Isod ceir detholiad o luniau o’r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru ar Ddydd Gweddi’r Byd. Yn anffodus nid yw gofod yn caniatáu inni gynnwys yr holl luniau a ddaeth i law. Fodd bynnag, mae modd i chi eu gweld i gyd ar dudalen Facebook Dydd Gweddi’r Byd. Ac os gwyddoch am leoliadau eraill lle cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi ar y diwrnod arbennig hwn, beth am eu rhannu ar y dudalen honno? Diolch i bawb a rannodd luniau â ni.


Clydach, Cwm Tawe


Caerfyrddin


Capel Pandy Tudur


Clapham Junction, Llundain

*Dydd Gweddi'r Byd 2024*

*(parhad o dudalen 1)*



Bancyfelin, Caerfyrddin



Mossley Hill, Lerpwl



Capel y Pentre a Phrion, ger Dinbych



Hermon, Cynwyl Elfed



Soar, Nercwys



Trefnant a Thremeirchion



Cwm-ann, Llanbedr PS



Eglwys Crist, y Bala



Hebron, Hen Golwyn



Llandysul



Ebeneser a Chapel y Groes, Wrecsam



Capel Soar, Llanfair Talhaiarn

# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 5 Gobeithiol

### Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fu adeg yn eich bywyd pan oedd rhaid ichi ddal mewn gobaith mewn amgylchiadau anodd? Ble wnaethoch chi ganfod gobaith pan oedd arnoch ei angen?

### Darlleniad o'r Ysgrythur: Luc 4:14–21

Aeth Iesu yn ôl i Galilea yn llawn o nerth yr Ysbryd, ac aeth y sôn amdano ar led drwy'r ardal gyfan. Roedd yn dysgu yn y synagogau, ac yn cael ei ganmol gan bawb.

A daeth i Nasareth, lle cafodd ei fagu, a mynd i'r synagog ar y Saboth fel roedd yn arfer ei wneud. Safodd ar ei draed i ddarllen o'r ysgrifau sanctaidd. Sgrôl proffwydoliaeth Eseia gafodd ei rhoi iddo, a dyma fe'n ei hagor, a dod o hyd i'r darn sy'n dweud:

"Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i,

oherwydd mae wedi fy eneinio i

i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd.

Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid, a phobl sy'n ddall i gael eu golwg yn ôl,

a'r rhai sy'n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr, a dweud hefyd fod y flwyddyn i'r Arglwydd ddangos ei ffafr wedi dod."

Caeodd y sgrôl a'i rhoi yn ôl i'r dyn oedd yn arwain yr oedfa yn y synagog, ac yna eisteddodd. Roedd pawb yn y synagog yn syllu arno. Yna dwedodd, "Mae'r geiriau yma o'r ysgrifau sanctaidd wedi dod yn wir heddiw."

> **Mae'r rhai hynny ohonon ni sydd â phrofiad byw o dlodi'n wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, ac yn fwy tebygol o brofi heriau iechyd meddwl.**
> **(Ffynhonnell: Mind, 2021)**
> **Mae 67% o bobl rhwng 16 a 24 oed yn credu y bydd eu cenhedlaeth nhw yn waeth eu byd na chenhedlaeth eu rhieni.**
> **(Ffynhonnell: Barnardo, 2019)**

### Myfyrdod: Sut fedrwn ni ddatblygu arferion gobaith?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai arbenigwyr iechyd meddwl wedi siarad am y cynnydd mewn blinder eithafol yn sgil argyfyngau a gorweithio ar draws y byd. Pandemig Covid-19, enghreifftiau newydd o wrthdaro arfog, anghydraddoldeb a chostau byw cynyddol, yr argyfwng hinsawdd – mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at hyn. Wrth gwrs, mae'r effaith ar ei gwaethaf ar y rhai a effeithir arnynt yn uniongyrchol: y rhai hynny y mae eu bywydau, eu teuluoedd a'u bywoliaeth dan fygythiad. Ond **fe ŵyr y rhan fwyaf ohonon ni pa mor anodd y gall fod i aros yn obeithiol mewn amserau heriol**. Bellach, mae gair Saesneg ar gael am ein hawydd i gael ein hudo gan straeon newyddion drwg diddiwedd ar ein ffonau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Pa mor hir fuoch chi yn 'gwae-sgrolio' (*doomscrolling*) yr wythnos hon?

**Sut fedrwn ni ddatblygu arferion gobaith yn yr amserau heriol hyn?**

Yn ein darlleniad uchod o Efengyl Luc, mae Iesu newydd ddychwelyd i Galilea o'r anialwch, lle bu'n ymwrthod â chyfres o demtasiynau. Ymysg y temtasiynau hyn roedd cynnig y gallai Iesu fod yn ben ar 'holl deyrnasoedd y ddaear', dim ond iddo droi oddi wrth Dduw'r Tad ac addoli'r un a'i temtiodd.

Pan ddychwelodd Iesu i Nasareth a darllen yn y synagog, nid damwain a hap ydy hi ei fod yn darllen adran benodol o Eseia. Mae Iesu wedi'i eneinio gan yr Ysbryd trwy fedydd ac wedi dod allan o'r anialwch gyda chenhadaeth: i ddangos a gweithredu pwrpas grym Duw, yr hyn mae Duw'n ei ddymuno inni. Mewn cyferbyniad â syniad y temtiwr mai pwrpas grym ydy bod ag *awdurdod dros* bobl, mae geiriau Eseia'n dweud wrthon ni fod grym Duw'n cael ei gyfeirio at ***ryddhau ac iacháu pobl sydd dan ormes a dioddefaint***. Dyma'r hyn dwi yma i'w gyflawni, meddai Iesu. Dyma'r Newyddion Da.

**Mae Iesu'n uniaethu ei hun â lleisiau'r proffwydi sy'n cyhoeddi neges Duw o obaith a'r addewid am gyfiawnder.*** Dydy llefaru gobaith mewn llais proffwydol ddim yr un fath â 'meddwl yn bositif' neu optimistiaeth syml. Mae gobaith yn y fan yma'n golygu mwy na dweud wrth rywun, 'fe fydd hi'n iawn, gewch chi weld'.

*Gweler yr adran 'Proffwydol' yn y gyfres hon am fwy ar y thema hon.

** Mae enghreifftiau'n cynnwys Tony Abbott yn Awstralia yn 2010, a aeth yn ei flaen i fod yn Brif Weinidog Awstralia, a Rick Perry yn 2014 pan oedd yn Llywodraethwr Tecsas.

> **'mae'r gallu i enwi poen a lleisio galar ynddo'i hun yn ffurf ar obaith'**
> (Emmanuel Katongole, *Born from Lament: The Theology and Politics of Hope in Africa*, 2016)

Dyma'r gobaith sy'n ymgodymu â realaeth y sefyllfa a brofir gan y rheini sydd mewn tlodi, carcharorion, a'r rhai sydd ar y cyrion.

Bu Emmanuel Katongole yn gweithio gyda chymunedau yn Affrica lle mae gwrthdaro treisgar a thlodi'n arwain at heriau dyddiol. Mae ei ymchwil, fodd bynnag, wedi dangos fod y portread o gymunedau o'r fath fel rhai 'heb obaith' yn bell o fod yn wir.

Yn hytrach, awgryma mai dyma lle y gwelir y cymhlethdod o ddal gafael mewn gobaith yn y sefyllfaoedd mwyaf anobeithiol. Dangosir inni fod gobaith a galar wedi'u cysylltu'n agos.

Dywed Katongole fod gobaith fel arferiad yn golygu ymgodymu, brwydro, dicter cyfiawn, protestio, a galaru. **Mae ein gobaith yn cael ei glywed wrth inni godi ein lleisiau at Dduw a grymoedd byd, wrth inni ofyn 'pam' a hawlio cyfiawnder. Fe'i clywir hefyd drwy gyhoeddi realaeth wahanol: 'blwyddyn ffafr yr Arglwydd'.**

Mae gweledigaeth y gobaith a gyhoeddir gan Iesu yn un eang. Hwn ydy gobaith ar waith, yn addewid am newid.

Fodd bynnag, mae yna ddarn arall yn y Gair ynglŷn â thlodi sy'n awgrymu y dylai ein gobaith fod yn fwy cyfyngedig. Ym Mathew 26, mae gwraig yn eneinio traed Iesu gyda phersawr drudfawr iawn. Mae'r disgyblion yn galw hyn yn 'wastraff', gan dynnu sylw at y ffaith y 'Gallai rhywun fod wedi gwerthu'r persawr yna am arian mawr, a rhoi'r cwbl i bobl dlawd'.

Ateb Iesu oedd: 'Gadewch lonydd i'r wraig! Mae hi wedi gwneud peth hyfryd. Bydd pobl dlawd o gwmpas bob amser, ond fydda i ddim yma bob amser.' (Mathew 26:6–13; gweler hefyd Marc 14:3–9 ac Ioan 12:1–8)

Mae mwy nag un arweinydd gwleidyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi defnyddio'r ymadrodd 'bydd pobl dlawd o gwmpas bob amser' i awgrymu mai dim ond hyn a hyn y gall gweithredu cymdeithasol ar dlodi ei gyflawni.**

Ac mae hyn yn ymddangos yn ddigon synhwyrol, o leiaf i ryw raddau. Does bosib fod geiriau Iesu'n golygu na welir diwedd ar dlodi hyd nes daw nefoedd newydd a daear newydd. Gallwn ddal gafael ar y gobaith y daw rhywfaint o newid, ond mewn byd o bechod mae yna gyfyngiadau ar yr hyn y gall unrhyw un ohonon ni ei gyflawni.

Serch hynny, mae yna broblemau'n codi o ran derbyn y datganiad hwn fel ffin i'n gobaith ac edrych ar dlodi (yn y byd hwn, o leiaf) fel rhywbeth sydd i raddau helaeth yn anorfod neu'n rhemp.

Mae dehongliad fel hwn yn colli **graddfa a chwmpas radical addewidion Duw** a welwn yn ein darlleniad yn Luc. Dydy Iesu ddim yn cyhoeddi'i hun fel yr un a ddaeth i ryddhau dim ond rhai o'r rhai a ormesir, neu i ddod â'r newyddion da at rai yn unig o'r rhai hynny sydd mewn tlodi. Trwy gydol yr Efengylau, i'r gwrthwyneb, mae Iesu'n pwysleisio'n gyson bod cariad, cyfiawnder a llawenydd y deyrnas i bawb a bod ei deyrnas yn torri i mewn i'r byd hwn yma, nawr, trwyddo Fe a'i ddisgyblion. Iesu ydy'r un sy'n dymchwel y byrddau, yn drysu systemau, yn codi ei lais yn erbyn ecsbloetio a gormes. Mae Iesu hyd yn oed yn trechu angau ei hun! Mae hi'n anodd iawn dychymygu y byddai'n codi ei ysgwyddau ac yn ildio i'r anochel wrth ddweud, 'Bydd pobl dlawd o gwmpas bob amser'.

Mae'r Parch. Ddr Liz Theoharis, offeiriad a chyd-gadeirydd y Poor People's Campaign yn yr Unol Daleithiau, wedi amlygu cyswllt sy'n hawdd ei golli yn yr ymadrodd hwn. Ceir yr ymadrodd 'bydd pobl dlawd o gwmpas bob amser' hefyd yn Deuteronomium 15, lle gosodir y rheolau ar gyfer y flwyddyn sabothol neu jiwbilî: amser dileu dyledion, i'w gynnal bob saith mlynedd. Mae Theoharis yn nodi fod Deuteronomium yn dweud 'Ddylai neb fod mewn angen yn eich plith chi' (15:4) *yn ogystal â* 'Bydd yna bobl dlawd yn y wlad bob amser' (15:11).

Sut y gall y ddau beth fod yn wir? Awgryma Theoharis fod 15:11, 'Bydd yna bobl dlawd yn y wlad bob amser' yn cyfeirio at y sefyllfa *lle nad ydy'r byd fel ag y dylai fod*. Pan na fyddwn ni'n dilyn ffyrdd Duw, yna fe fydd tlodi'n parhau. Mae blwyddyn Jiwbilî yn gam tuag at fendio'r byd, yn ei ddwyn yn agosach at deyrnas Duw lle na fydd 'neb mewn angen yn eich plith chi'. Mae'r syniad y dylen ni, bob saith mlynedd, ddileu pob dyled a dechrau o'r dechrau, yn ddigon radical yn ein cyd-destun ni o gardiau credyd a benthyciadau diwrnod cyflog. I Theoharis, mae'r darn yn Deuteronomium, mewn gwirionedd, yn dweud nad ydy hyn yn mynd yn ddigon pell. Megis arwydd yn unig ydy hyn, yn gychwyn ar yr hyn y dylen ni osod ein golygon arno.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 5 Gobeithiol*
*(parhad o dudalen 3)*

Felly, pan mae Iesu'n dyfynnu Deuteronomium 15:11, yr hyn mae'n ei ddweud ydy: dyma'r ffordd fydd y byd yn parhau i fod os nad ydych chi'n dilyn Duw'n llawn, i'r eithaf, yn rhadlon a chalonnog, gan gredu yn y newidiadau y mae'r byd yn honni sydd ddim yn bosib: maddau pob dyled am byth, dileu pob angen. Mae'r wraig â'r persawr felly efallai'n well tyst i'r weledigaeth hon oherwydd helaethrwydd ei hoffrwm, diofalwch ei chariad. Dangoswyd y cariad helaeth hwnnw at Iesu fel un a oedd yn byw mewn tlodi, yn gwybod yn iawn sut beth oedd bod yn ffoadur, yn gwybod am newyn ac anghyfiawnder, yn un a ddioddefodd ac a oedd i farw. Mae'r cariad a'r digonedd diderfyn hwn yn arwydd o'r hyn y dylen ni obeithio amdano, i bawb.

## Gwrandewch ar: Dr Selina Stone, Prifysgol Durham

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (8 munud)

Mae Dr Selina Stone yn gweithio ym Mhrifysgol Durham fel rhan o bartneriaeth Common Awards, partneriaeth hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n astudio ar gyfer y weinidogaeth mewn llawer o eglwysi yn y Deyrnas Unedig. Hi ydy awdures y gyfrol *Tarry Awhile: Drawing on the Resources of Black Spirituality for the Whole Church* (2023), llyfryn Grawys 2024 Archesgob Caergaint. Hi hefyd ydy noddwr y mudiad JustMoney. Mae Selina yn siarad am ddisgwyl a gobeithio, am ei phrofiadau o drefnu cymunedol, a'r cysylltiadau rhwng gwleidyddiaeth, tlodi a ffydd.

**Sut gall disgwyl a llonyddwch fod yn rhan o'ch arfer o obeithio?**

**Sut ydych chi'n delio â siom pan nad ydy pethau'n troi allan fel roeddech chi'n wedi gobeithio?**

## Gwrandewch ar: Carlos Valle, Cynghorydd Maes, Comision de Accion Social Menonita (CASM), Honduras

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (5munud)

Cenhadaeth CASM ydy ceisio dileu anghyfiawnder economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a gwleidyddol mewn partneriaeth â chymunedau yn Honduras. Gyda chefnogaeth Cymorth Cristnogol, mae CASM yn gweithio gyda ffermwyr coffi a chynhyrchwyr mêl i ddatblygu arferion call o ran yr hinsawdd wrth i'r rhanbarth deimlo effeithiau'r argyfwng hinsawdd.

Cewch glywed gan Carlos Valle, Cynghorydd Maes ar y prosiectau hyn, wrth iddo adrodd am y prosiect a'r gobaith mae'n ei weld ar gyfer y dyfodol wrth iddo weithio gyda ffermwyr o ddydd i ddydd.

**Dywed Carlos y gall gobaith ddechrau gyda rhywbeth mor fach â 'gronyn o dywod'. Pa bethau bychain sy'n rhoi gobaith i chi?**

## Ysbrydoliaeth: Undeb Bedyddwyr Cymru a rhaglen BRACT yn Zimbabwe

Gwyliwch ein ffilm fer (7 munud) yma: https://youtu.be/RM26KNVmn-E

Cewch glywed gan Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadol Undeb Bedyddwyr Cymru, am eu gwaith gyda rhaglen BRACT yn Zimbabwe. Mae eu menter 'Talentau Gobaith', a gefnogir gan Gymorth Cristnogol, yn cysylltu cymdogion byd-eang yng nghefn gwlad Cymru a Gogledd-ddwyrain Zimbabwe.

Mae BRACT yn helpu cymunedau yn Zimbabwe i ddatblygu eu gwytnwch drwy dechnegau amaethyddol newydd, hyfforddiant, grwpiau cymunedol a thechnolegau newydd.

## Taclo Tlodi: Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu ei wneud?

'Mae gen i obaith y daw pethau'n well i'r gymuned pan fydd pawb yn ymuno â'i gilydd,' Carlos Valle, o Honduras, yn ein hatgoffa am bwysigrwydd gweithredu ar y cyd.

Os ydych chi wedi defnyddio pecynnau eraill yn y gyfres hon, fe fyddwch wedi sylwi pa mor bwysig ydy gweithio mewn partneriaeth ac adeiladu cysylltiadau pan ddaw hi at daclo tlodi. Gall eglwysi, elusennau, a grwpiau eraill ledled y Deyrnas Unedig, ac o amgylch y byd, uno i weithredu. A gyda'n gilydd, gallwn ddweud wrth y rhai hynny sydd mewn grym – gan gynnwys llywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig – i wneud tlodi yn flaenoriaeth.

Yn yr argyfwng costau byw byd-eang, diffyg tai addas, yr argyfwng hinsawdd, neu unrhyw un arall o'r heriau sy'n ein hwynebu gyda'n gilydd yn 2024, mae gan wleidyddion rôl i'w chwarae ac fe allwn ni eu dal i gyfrif. Efallai fod camau gweithredu'r wythnos hon yn ymddangos yn rhai mawr i rai ohonon ni, ond does dim rhaid ichi gymryd y cam hwnnw ar eich pen eich hun. Mae ganddon ni lawer o adnoddau i'ch cefnogi wrth ichi fwrw ymlaen â'ch gweithredu.

**Gweithredu: Trafodwch yn eich grŵp a dechreuwch weithio gydag eraill yn eich eglwys ar gynllun i gyfarfod â rhywun sydd â grym gwleidyddol yn eich ardal – AS a/neu eich darpar-ymgeiswyr seneddol fyddai'n ddelfrydol. Pa faterion fasech chi'n eu codi yn y cyfarfod hwn?**

Wrth gwrs, fe fydd angen ichi siarad ag eraill yn eich eglwys a'ch cymuned. Mae gofyn i'ch cynllun fod yn addas i'ch cyd-destun a'ch adnoddau. Ond fe allech chi neilltuo ychydig funudau gyda'ch gilydd i ystyried y cam cyntaf. Gyda phwy fase'n rhaid ichi siarad o fewn eich eglwys i roi cychwyn ar bethau? Sut fasech chi'n cysylltu â'r rhai hynny sydd mewn grym? Beth ydy'r materion brys yr hoffech chi eu gweld yn cael sylw? Beth hoffech chi i'r rhai hynny sydd mewn grym wybod am eich pryderon a'ch gobeithion am y dyfodol?

I helpu gyda'ch trafodaethau, ceir adnodd ychwanegol ynghyd â'r pecyn hwn sy'n rhestru'r camau y gall y rhai hynny mewn grym eu cymryd i daclo tlodi nawr.

Ceir chwe Phecyn Cwrs Taclo Tlodi ac mae ein pecyn olaf, 'Gyda'n gilydd', yn cynnig deunyddiau i gefnogi eich eglwys wrth ichi lunio eich Cynllun Taclo Tlodi eich hun a datblygu eich ymgysylltiad gwleidyddol. Mae ganddon ni nifer o syniadau ar sut y medrwch ddod ynghyd gyda'ch gwleidyddion trwy gyfarfodydd, digwyddiadau a gwasanaethau eglwys. Os ydych chi'n dilyn cwrs pum wythnos, mae digon o amser yn weddill i dynnu o'r pecyn hwn wrth ichi gynllunio eich camau nesaf.

Ceir hefyd ystod o adnoddau defnyddiol gan bartneriaid Taclo Tlodi yma: caid.org.uk/actonpovertyresources

## Gweddi i Gloi

Meddai Iesu:

"Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i,

oherwydd mae wedi fy eneinio i

i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd.

Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid, a phobl sy'n ddall i gael eu golwg yn ôl, a'r rhai sy'n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr, a dweud hefyd fod y flwyddyn i'r Arglwydd ddangos ei ffafr wedi dod."

Fel pobl Dduw,
gadewch inni ailddatgan ein gobaith a'n gorchwyl.

I'r rhai hynny sy'n cael eu hystyried fel llai na dynol
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

I'r rhai hynny sydd wedi colli pob gobaith
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

I'r rhai hynny sydd wedi'u caethiwo gan siniciaeth
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

I'r rhai hynny sydd angen clywed y newyddion da
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

Mae teyrnas Dduw ar ddod
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

I'r rhai hynny a wthiwyd i dlodi
**Cyhoeddwch Jiwbilî**

Boed i'n datganiadau a'n gweddïau gael eu hategu trwy eiriolaeth a gweithredoedd.

Boed i deyrnas Dduw ddod! **Amen**

(Addaswyd y weddi hon o ddeunydd a gynhyrchwyd gan y Cyd-dîm Materion Cyhoeddus fel rhan o'u hymgyrch, Dileu'r Ddyled, yn 2020-22)

Allwch chi ddefnyddio strwythur y weddi hon i greu eich fersiwn eich hun ar gyfer eich cyd-destun chi?

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 17 Mawrth am 7.30yh**
**Emynau Prestatyn**
Prestatyn ydi lleoliad ein rhaglen ni'r wythnos yma – cyfle i ddathlu cyfraniad emynwyr gogledd-ddwyrain Cymru i'n trysorfa o ganu mawl. Cawn fwynhau gwledd o emynau o Gapel Rehoboth yn y dre o dan arweiniad Trystan Lewis.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 17 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Tad Allan Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 17 Mawrth, am 12yp**
Oedfa dan ofal Catrin Elis Williams, Bangor

# Golygyddol

## Bod yn Gristion mewn bywyd cyhoeddus



Wythnos yn ôl roeddwn ar fy nhraed yn siambr ysblennydd Cyngor Sir Gâr yn traddodi araith i osod treth y cyngor. A minnau newydd gyrraedd oed yr addewid, rwy'n aml yn meddwl, sut ar y ddaear y cefais fy hun yn y fath sefyllfa? Fel hyn y bu hi, ffrindiau. Yn anffodus fe wnaeth y Parchg Emlyn Dole o Gwm Gwendraeth golli ei sedd o drwch blewyn yn etholiad 2022. Rhaid oedd canfod Arweinydd newydd ar fyrder. Fe bwysodd dau ohonom ar Darren Price, aelod hynod egnïol a galluog, i roi ei enw ymlaen, gan addo'r byd iddo petai'n gwneud hynny. Cytunodd Darren, a'r noson ganlynol roedd e ar y ffôn. 'Ti'n cofio dweud y byddet ti'n fodlon neud unrhyw beth i helpu? Ti'n fodlon bod yn Aelod Cabinet dros Adnoddau?' Roeddwn mewn cornel! Ar ôl ymgynghori â'r teulu, cytunais.

### Cyfnod heriol dros ben

A dyna chi amser i ddod i'r swydd! Yr argyfwng mwyaf mewn llywodraeth leol o fewn cof. Y rhyfel yn Wcráin yn gyrru pris tanwydd drwy'r to, trychineb cyllideb Truss a Kwarteng yn gyrru chwyddiant dros 11%, athrawon yn streicio am godiadau cyflog uwch - a llawer mwy. A hyn ar ddiwedd degawd a mwy o doriadau llym mewn cyllido gan lywodraeth ganolog, a chynnydd aruthrol yn y galw am wasanaethu hanfodol fel gofal cymdeithasol. Gyda chymorth tîm ardderchog o swyddogion, fe wnes i argymell i'r Cabinet ffyrdd digon anodd o geisio cael dau ben llinyn ynghyd, wrth ymateb i ymosodiadau yr wrthblaid. Hawdd y gallwn fod wedi canu gyda Pantycelyn:

Heddiw, tanllyd saethau yma,
 Fory, tanllyd saethau draw;
Minnau'n gorfod aros yno,
 Yn y canol, rhwng y tân…

### Y cwmwl cynghorwyr!

Mae'n gysur i mi fod Cristnogion o argyhoeddiad o'm cwmpas yn siambr y cyngor. Yn y sedd nesaf ataf mae Glynog Davies, Aelod Cabinet dros Addysg a phregethwr cynorthwyol gyda'r Presbyteriaid; yn y sedd nesa mae Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig sy'n flaenor ac organyddes capel; y tu ôl i mi mae Peter Hughes Griffiths, un o hoelion wyth eglwys y Priordy, Caerfyrddin a Hazel Evans, Aelod Cabinet dros Adfywio, sy'n Gadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi. Ychydig tu ôl wedyn mae Jean Lewis, pregethwr cynorthwyol ac ysgrifennydd Capel y Graig, Trelech; Gareth Thomas, ysgrifennydd Capel Newydd, Hendy; a Meinir James, ysgrifennydd capel Penygraig. Heb sôn am ffyddloniaid triw eraill i'r achos fel Tyssul Evans, Mansel Charles, Dai Thomas, Bryan Davies a mwy …

### Y crefyddol a'r seciwlar

Wrth drafod y dreth dros fisoedd, a minnau'n atebol am gyllideb o £700m (arswydus!), ni allwn beidio â chofio geiriau Iesu Grist pan gafodd ei herio gan ei elynion ynglŷn â thalu trethi i Gesar. Mae llawer yn dehongli ei ymateb enwog ar ôl iddo ofyn am ddarn arian, 'Talwch felly bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw' (Math 22:21) fel gorchymyn i gadw'r crefyddol a'r seciwlar ar wahân yn ein bywydau. Ond efallai nad yw'r dehongliad yn gywir. Onid ateb eu rhagrith oedd Iesu am eu bod nhw'n torri'r gorchymyn 'Paid â gwneud i ti ddelwau tawdd' (Exodus 34:17 &c) trwy fod â darn arian gyda delw Cesar arno yn eu meddiant yn y lle cynta?

Fel Annibynnwr, credaf nad oes lle i weddïau mewn siambr gyngor, na lle i bregethu gwleidyddiaeth bleidiol mewn pulpud. Ond nid yw hynny'n golygu y dylem adael ein hegwyddorion Cristnogol wrth ddrws Neuadd y Sir, na'n daliadau am angen enbyd cymdeithas wrth ddrws y capel, tra bod hynny'n unol â maniffesto Iesu Grist. Yn wir, onid oes dyletswydd i wneud y ddau beth yn y dyddiau hynod anodd hyn i wasanaethau cyhoeddus a'r achos Cristnogol yng Nghymru?

**Alun Lenny**

# ROGW – *parhad*

Meredydd Evans (Mered), Islwyn Ffowc Elis a Robin Williams, ond bu'n rhaid i Islwyn adael y cwmni'n weddol fuan oherwydd salwch a daeth Cledwyn Jones i sefyll yn gadarn yn y bwlch, a Mered, Cled a Robin fu hi wedyn. Gwyddom yn iawn am ddoniau a chaneuon y tri, ac am y galwadau mawr fu arnynt am flynyddoedd.

### Y weinidogaeth

Wedi graddio yn y Gymraeg ym Mangor, a Robin wedi cyflwyno'i hun fel ymgeisydd am y weinidogaeth gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, astudiodd ddiwinyddiaeth yn Aberystwyth cyn cael ei ordeinio'n weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn Sasiwn Lerpwl yn 1950 ac yna ei sefydlu yn Ninmael a Glanrafon yn Edeirnion cyn symud yn 1960 i Benrhyndeudraeth, Minffordd a Chroesor, ac aros yno hyd 1973.

### Amryddawn

Cyfnod gloyw iawn oedd hwn yn ei hanes; cyfnod y priodi efo Doris a magu Catrin a Dylan, y plant. A chyfnod hefyd y gweithio caled ac ymdoddi i bob rhan o fywyd cymuned, yn arbennig, os caf i ddweud, yn Ninmael a Glanrafon, a bod yn weinidog ymroddedig. Yng nghyfnod y Penrhyn daeth llenydda'n amlwg yn ei fywyd, ac yn gyson deuai stôr o gyfrolau o'i eiddo o'r wasg, cyfrolau sy'n glasuron llenyddol hyd y dydd heddiw ac yn llawn o wersi Cristnogol a moesol. Roedd yn sgwennwr abl.

Yn y cyfnod hwn hefyd daeth yn wyneb ar deledu fel cyflwynydd y rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol,* ac yn gyfrannwr cyson i'r radio. Roedd hefyd yn ddarlithydd huawdl a diddorol, a chan ei fod yn ddynwaredwr penigamp hefyd, enillodd ei ddarlith ar 'Y Tri Bob': Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn), Bob Owen Croesor a Bob Roberts Tai'r Felin sylw cenedlaethol, ac fe'i rhestrir ymhlith y goreuon o'r 'darlithoedd poblogaidd'.

**Iwan Llewelyn**

(*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.)


# Gweinidogaeth

Rydym yn chwilio am weinidog rhan-amser i weinidogaethu ar gapeli Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Derbynnir ceisiadau drwy law Mrs Jennifer Hughes, Efail Newydd, Llangadog, Sir Gâr SA19 9BU neu drwy e-bost: jen60@hotmail.co.uk

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# GWERDDONAU'R GRAWYS

Wrth feddwl am y Grawys heddiw mae llawer ohonom yn meddwl am arhosiad Iesu am ddeugain niwrnod yn yr anialwch. Dwi'n cofio cael y fraint o fynd i Israel i ddilyn camau Iesu, ac fe gymrodd fwy nag un diwrnod o daith yn dechrau yn y ddinas – yna yn treulio amser yn yr anialwch – gan ddychwelyd i'r ddinas drachefn yn teimlo'n wahanol. Roedden ni'n cael ein rhybuddio i beidio â dod â gormod gyda ni wrth fynd i'r anialwch, ac yn wir roedd yn lle i ddod wyneb yn wyneb â ni ein hunain.

### Gwerddonau

Mae gwerddonau'r anialwch wedi cynnal bywyd ers miloedd o flynyddoedd, a hebddyn nhw mae'n amhosibl parhau'n fyw. Cofiaf fy nhad yn dweud yn Sahara'r rhyfel fod hyd yn oed dŵr y gwerddonau wedi ei wenwyno. Mae anialwch Israel yn galed, crasboeth, sych a chreigiog, heb goed na phlanhigion. Ond yn y gwerddonau, fel arfer, mae sicrwydd o gael cynnig y 'dŵr bywiol'.

### Anialwch mewnol

Mae 'na anialwch i'w gael oddi mewn i ni hefyd ar adegau. Ac mae'n fyd lle mae malais yn gallu ein llorio ni, yn gallu gwasgu gobaith a brwdfrydedd allan ohonom ni, peri ein bod ni'n sychu'n grimp oddi mewn, fel anialwch. T. S. Eliot soniodd am yr anialwch yn eistedd nesa atom ni ar y tiwb, ac yng nghalon ein brodyr. Yn y fath fyd, mae'r bobl sy'n werddonau mor atyniadol. Y bobl rheiny sy'n ein cadw ninnau rhag ein nos. Dydyn nhw ddim yn cael eu llorio gan y pwysedd arferol, mae 'na ysgafnder yn y galon sydd ddim yn ffuantus, maen nhw'n bobl sy'n annog ac, at ei gilydd, ddim yn cael eu synnu'n ormodol gan unrhyw beth. Rydan ni i gyd yn nabod pobl fel hyn yn ein hardaloedd a'n profiad. Rydan ni'n medru ymagor ar lan eu dŵr bywiol.

### Rhwng Jerwsalem a Jerico

Ynghanol anialwch bywyd, oes, mae bygythiad ambell ddyffryn du, ond mae gwerddonau i'w cael, ac mae teithwyr annisgwyl yn gymorth trugarog rhwng ein Jerwsalem a'n Jerico personol ni o ddydd i ddydd.

Wedi bod yng nghwmni'r bobl arbennig hyn rydan ni wedi'n hadnewyddu, ac rydan ni'n dychwelyd o'r anialwch yn ôl i'r ddinas drachefn, yn ôl at gyfannedd, ac yn medru gweld y llun yn wahanol.

Deuwn yn ôl i ganol rhuthr bywyd, wedi cael y fraint o falm y gwerddonau.

**Aled Lewis Evans**
(*Allan o* Shalôm *Capel y Groes ac Ebeneser Wrecsam, Rhif 504, Mawrth-Ebrill 2024*)



## Gweddi Grawys

Dduw Cariadus
yn ein dioddefiadau a'n gorfoledd,
yn ein perthynas ag eraill ac yn ein bywydau o ddydd i ddydd,
rydym yn gofyn i dy Deyrnas ddod.
Agora ein llygaid i'th bresenoldeb,
agor ein clustiau i dy alwad,
agor ein calonnau i dy gariad,
agor ein llwybrau i dy ewyllys,
agor ein gweithredoedd i'th drugaredd,
agor ein poen i dy heddwch,
ac wrth wneud, agor ein byd i dy obaith.
Yn enw Iesu,
AMEN

**Trystan Owain Hughes**
**(addasiad Aled Lewis Evans)**

## Gweddi Grawys Cymuned Iona

Yn yr olion sydd ar ôl pan fethwn ni garu ein gelynion,
a gweddïo dros y rhai sy'n ein herlid.
Yn yr anrhefn a ganfyddwn mewn mannau wedi eu
chwalu y tu hwnt i sancteiddrwydd,
lle mae milwyr yn melltithio a chenhedloedd benben
â'i gilydd,
ar groesffordd y byd,
boed i ni ganfod eto dy roddion Di,
dŵr i'n glanhau
Lludw i feddalu calonnau caled.
AMEN

**Alison Phipps**
**(Addasiad Aled Lewis Evans)**

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Cyfarfodydd Blynyddol 2024**
**Coleg y Cymoedd, Nantgarw**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan bellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*